



Sgiliau y dylai Cadeirydd ein Bwrdd Ymddiriedolwyr eu cael



Dyma'r sgiliau yr hoffem i'n **Cadeirydd
Ymddiriedolwyr** eu cael.



Ysgrifennwch neu siaradwch am y sgiliau hyn yn eich ffurflen gais, neu eich cais fideo. Dywedwch wrthym am bethau rydych wedi'u gwneud sy'n dangos bod gennych y sgiliau hyn.

Amdanoch chi



Rhaid i chi gredu yng nghenhadaeth Anabledd Dysgu Cymru. Ein cenhadaeth yw gwneud Cymru y wlad orau i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi.

Rydym am i chi allu:



- Gweithio'n dda gydag eraill.



- Gwneud amser i'n sefydliad pan fo angen.



- Cyfathrebu â gwahanol fathau o bobl.




- Gweithio heb farnu eraill. Parchu eraill a bod yn deg.

Profiad

Hoffem i chi fod wedi cael profiad gyda:



- Cadeirio cyfarfodydd



- Cynrychioli sefydliad mewn digwyddiadau



- Siarad yn gyhoeddus



- Rheoli pobl

Rydyn ni angen i chi:



- Ddeall y mathau o bethau sy'n atal pobl ag anabledd dysgu, awtistiaeth a'u teulu neu ofalwyr rhag cymryd rhan.



- Gwybod am bolisiau gofal cymdeithasol ac anabledd dysgu yng Nghymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Deall beth sy'n digwydd yn Llywodraeth Cymru.



- Gwybod am gyfreithiau elusennol sy'n dweud sut y dylid rhedeg a rheoli elusennau.



- Bod â sgiliau arwain da



- Gallu gwranddo ar bobl a'u barn a'u safbwyntiau gwahanol.



- Deall gwahanol grwpiau o bobl.



- Gallu meithrin perthynas dda gyda gwahanol grwpiau a sefydliadau.



Hoffem pe gallech siarad Cymraeg.